

TORFAEN  
COUNTY  
BOROUGH



BWRDEISTREF  
SIROL  
TORFAEN

Diogelu'r  
Cyhoedd

# Cynllun Gwasanaeth Gorfodi'r Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2024/25



# Cynnwys

## Cyflwyniad

### 1. Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth

- 1.1 Nodau ac Amcanion
- 1.2 Cyswllt â 'Torfaen: Cynllun Sirol'

### 2. Cefndir

- 2.1 Proffil y Cyngor
- 2.2 Strwythur Sefydliadol
- 2.3 Cwmpas y Gwasanaeth Gorfodi'r Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
- 2.4 Y galw ar y Gwasanaeth Gorfodi'r Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
- 2.5 Polisi Gorfodi a Chydymffurfiad

### 3. Cyflenwad y Gwasanaeth

- 3.1 Ymyraethau mewn Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
- 3.2 Cwynion Bwyd Anifeiliaid a Bwyd
- 3.3 Egwyddor Awdurdod Cartref a'r Cynllun Prif Awdurdod
- 3.4 Cyngor i Fusnesau
- 3.5 Samplo Bwyd Anifeiliaid a Bwyd
- 3.6 Rheolaeth ac Ymchwiliadau i Gychwyn Clefydau Heintus yn Gysylltiedig â Bwyd
- 3.7 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd Anifeiliaid a Bwyd
- 3.8 Cysylltiadau â Sefydliadau Eraill
- 3.9 Gwaith Hyrwyddol Diogelwch a Safonau Bwyd Anifeiliaid a Bwyd ac Ymyraethau Rheoli Answyddogol Eraill

### 4. Adnoddau

- 4.1 Dyraniad Ariannol
- 4.2 Dyraniad Staffio
- 4.3 Cynllun Datblygu Staff

## **5. Asesiad Ansawdd**

- 5.1 Asesiad Ansawdd a Monitro Mewnol

## **6. Adolygiad**

- 6.1 Adolygu yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth
- 6.2 Nodi Unrhyw Amrywiaeth o Gymharu â'r Cynllun Gwasanaeth
- 6.3 Meysydd Gwelliant

## **Atodiadau**

1. Cynllun Samplo Safonau Bwyd

# Cyflwyniad

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i orfodi deddfwriaeth diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, a chynhyrchu cynllun gwasanaeth blynyddol sy'n gosod gerbron y trefniadau sy'n bodoli er mwyn cyflawni'r ddyletswydd yma, yn unol â *Chytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol gan Awdurdodau Lleol* yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae'r Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (y Cynllun) wedi cael ei gynhyrchu i ateb i'r gofyniad yma, a'i fwriad yw rhoi gwybod i drigolion, y gymuned fusnes a phartion eraill am y trefniadau sydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i reoleiddio diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'n dangos hefyd sut mae'r gweithgareddau yma'n cyfrannu at ac yn cefnogi [Cynllun Sirol y Cyngor](#)

Mae'r Cynllun yn gosod gerbron sut bydd y Cyngor yn sicrhau bod y bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cael ei gynhyrchu, ei werthu, ei storio, ei ddsbarthu a'i fwyta yn Nhorfaen yn ddiogel, yn hyn y mae'n honni bod, a bod busnesau'n cydymffurfio â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae swyddogion yn yr adran Diogelu'r Cyhoedd yn rhoi cyngor, addysg a chyfarwyddyd ynglŷn â'r hyn y mae'r gyfraith yn gofyn amdano, yn ymgymryd ag ymyraethau, ymchwiliadau, samplo, ac yn cymryd camau gorfodi i sicrhau cydymffurfriad, ble mae hynny'n briodol..

Ar ôl tynnu'n ôl [Map Ffordd Adferiad yr Awdurdod Lleol](#) ar 31 Mawrth 2023, mae'r Cyngor wedi dychwelyd at lefelau gwasanaeth cyn y pandemig (h.y. busnes yn ôl yr arfer). Yn ystod yr amser yma, roedd ymyraethau safonau bwyd yn fwy na'r disgwyl a chwblhawyd ymyraethau hylendid bwyd yn y busnesau uchaf eu risg. Mae cynnydd yn dal i gael ei wneud, trwy'r defnydd o agweddau hyblyg yn y Cod Ymddygiad Cyfraith Bwyd, i ymdrin â'r ôl-groniad i fusnesau risg is sy'n hwyr i gael ymyrraeth hylendid bwyd, a oedd y tu allan i gwmpas y cynllun adferiad. Ein bwriad yn 2024-25 yw dychwelyd y busnesau yma at eu trefn arferol o ymyraethau, gan gysoni â gofynion y Cod Ymddygiad Cyfraith Bwyd a'n disgwyliadau perfformiad arferol.

Er bod y diwydiant bwyd wedi dychwelyd ar fusnes yn ôl yr arfer, mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu o ran goblygiadau gadael yr UE, costau byw, cynnydd mewn prisiau bwyd, costau ynni a recriwtio. Rydym hefyd yn cydnabod fod y diwydiant wedi newid yn gyflym yn ystod y pandemig, gyda thwf gwerthiant bwyd ar-lein, sy'n dod â heriau ychwanegol i'n gwasanaeth.

Ar ôl pandemig Covid-19, gwelodd swyddogion ostyngiad mewn cydymffurfiad busnesau bwyd, gan arwain at fod arolygiadau'n cymryd mwy o amser, gydag angen mwy o gamau dilynol. Mae tueddiadau mewn cydymffurfiad busnesau bwyd yn cael eu monitro'n agos i weld unrhyw oblygiadau o ran adnoddau.

Bydd swyddogion yn cefnogi busnesau sydd am allforio nwyddau ac yn parhau i weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol yng Ngwent a ledled Cymru.

Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor yw'r arweinydd strategol ar gyfer Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru ar faterion bwyd a bwyd anifeiliaid ac mae'n aelod o Grŵp Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid Cymru a Phanel Cynghori ar Fwyd y Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol (CIEH).

Trwy fabwysiadu dull orfodaeth cymesur, cyson a seiliedig ar risg, mae'r Cyngor yn parhau yn ymrwymedig at roi'r amddiffyniad mwyaf posibl i ddefnyddwyr ac at gefnogi busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn Nhorfaen i ffynnu.



**Y Cynghorydd Mandy Owen**  
**Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd**

# 1. Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth

## 1.1 Nodau ac Amcanion

Nod y gwasanaeth gorfodaeth cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn Nhorfaen yw:

*Diogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid trwy sicrhau bod bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu a'i fwyta yn Nhorfaen yn ddiogel, wedi ei labelu a'i ddisgrifio'n gywir a bod busnesau bwyd yn cydymffurfio â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.*

Bydd y gwasanaeth yn gweithredu'r amcanion a'r camau canlynol i gyrraedd y nod yma:

### Amcan 1

**Gwella diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a lefelau cydymffurfiad â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a chyfrannu at leihau'r risg o salwch trwy fwyd, trwy gyflenwi rhaglen o ymyraethau rhagweithiol mewn busnesau bwyd yn Nhorfaen.**

#### Camau i gyrraedd amcan1:

- 1a Cyflwyno rhaglenni ymyrraeth sy'n seiliedig ar risg ar yfer hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid
- 1b Cyflwyno cynlluniau samplo bwyd microbiolegol a chyfansoddol, gan gynnwys rhai ar gyfer alergennau, i wirio honiadau cyfansoddol ac iechyd

### Amcan 2

**Gwella diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a lefelau cydymffurfiad â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a chyfrannu at leihau'r risg o salwch trwy fwyd, trwy gyflenwi rhaglen o ymyraethau adweithiol mewn perthynas â diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.**

#### Camau i gyrraedd amcan 2:

- 2a Ymchwilio i gwynion a cheisiadau am wasanaeth mewn perthynas â diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn unol â gweithdrefnau mewnol
- 2b Ymchwilio i achosion o salwch trwy fwyd yn unol â chyfarwyddyd Iechyd Cyhoeddus Cymru a chymryd camau yn ôl yr angen i atal lledaeniad pellach yn y gymuned
- 2c Agor ac ymateb i ddigwyddiadau a rhybuddion bwyd a bwyd anifeiliaid, gan gysylltu â'r ASB

a rhanddeiliaid eraill i amddiffyn iechyd cyhoeddus

- 2d Gweithio gydag asiantaethau partner ble mae yna wybodaeth leol sy'n dangos gweithgareddau twyll bwyd posibl neu drosedd drefnedig, a rhoi gwybod i Uned Troseddau Bwyd Cenedlaethol yr ASB fel sy'n briodol.

### Amcan 3

**Cefnogi ac addysgu busnesau i'w helpu i wella safonau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid**

#### Camau i gyrraedd amcan 3:

- 3a Rhoi cyngor wedi ei dargedu i fusnesau bwyd a bwyd anifeiliaid ar gais, ac yn achos digwyddiadau, i fusnesau cyfranogol trwy Grŵp Cyngor Diogelwch Digwyddiadau Torfaen
- 3b Cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol ymwybyddiaeth diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn y cyfryngau cymdeithasol
- 3c Cynnal tir gwastad ar gyfer busnesau onest a chydwybodol trwy gymryd camau i ddelio â busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid diegwyddor, a masnachwyr twyllodrus.

### Amcan 4

**Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth, materion diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid lleol a chenedlaethol, gan gynnwys safonau hylendid mewn busnesau bwyd yn Nhorfaen, gan alluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â ble maen nhw'n bwyta ac yn prynu bwyd**

#### Camau i gyrraedd amcan 4:

- 4a Rhoi sgoriau hylendid bwyd i fusnesau bwyd Torfaen i'w harddangos yn eu hadeiladau a lanlwytho data sgorio i wefan yr ASB i'w gyhoeddi yn unol â gofynion y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd
- 4b Cyhoeddi rhybuddion bwyd a bwyd anifeiliaid a roddir gan yr ASB, fel sy'n briodol yn y wasg leol ac yn y cyfryngau cymdeithasol
- 4c Rhoi gwybodaeth am wasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid i ddefnyddwyr, busnesau ac aelodau etholedig.

## Amcan 5

### Cynnig dulliau cyson o reoleiddio bwyd a bwyd anifeiliaid

#### Camau i gyrraedd amcan 5

- 5a Cyflenwi gwasanaethau gorfodaeth cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn unol â'r safonau a bennir yn y *Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol gan Awdurdodau Lleol*
- 5b Cyflenwi gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid o ystyried [Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid](#) yr ASB a chyfarwyddyd swyddogol arall, gan gynnwys canllawiau'r diwydiant
- 5c Cynhyrchu data a gwybodaeth amserol i'r ASB am gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid yn ôl y gofyn
- 5d Sicrhau bod unrhyw gamau a nodir ar ôl archwiliadau'r ASB yn cael eu cwblhau
- 5e Sicrhau bod swyddogion sy'n cyflenwi gwasanaethau gorfodaeth cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cynnal a, ble mae hynny'n angenrheidiol, yn datblygu eu gallu, gan fodloni'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sydd yn y *Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid*
- 5f Cynnig cynrychiolaeth mewn grwpiau cyswllt lleol, gan gynnwys eu his-grwpiau, a chymryd rhan mewn ymarferion cysoni cenedlaethol, fel sy'n briodol
- 5g Mabwysiadu dull cymesur o orfodaeth yn unol â [Pholisi Gorfodaeth a Chydymffuriad y Cyngor](#).

## 1.2 Cysylltiadau â 'Torfaen y Dyfodol: Cynllun Sirol'

Yn Rhagfyr 2022, mabwysiadodd y Cyngor [Torfaen y Dyfodol: Cynllun Sirol 2022 - 2027](#), sy'n pwysleisio ein huchelgeisiau rhwng 2022 a 2027. Mae hefyd yn nodi gweithgareddau cyflenwi allweddol pob blwyddyn a fydd yn helpu timau a gwasanaethau i wireddu'r uchelgeisiau hynny.

Mae'n nodi pedair thema allweddol, sy'n sail i naw blaenoriaeth allweddol. Y themâu yw lles, cysylltedd, cynaliadwyedd a diwylliant a threftadaeth. Y blaenoriaethau allweddol neu amcanion lles yw:

- Byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i gael y cymwysterau a'r sgiliau y mae eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol.
- Byddwn yn annog ac yn hybu plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallan nhw ffynnu.
- Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal yn gynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol a boddhaus.



- Byddwn yn gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn gorfforol.
- Byddwn yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol.
- Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i fod mewn busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuriaidd.
- Byddwn yn hybu bywydau mwy iach yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol.
- Byddwn yn cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac i ymweld ag ef.
- Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n adlewyrchu'r ffordd mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael gwasanaethau.

Wrth gefnogi a hyrwyddo bywydau iachach yn Nhorfaen, i wella lles meddyliol a chorfforol, mae'r pedwar gweithgaredd cyflenwi canlynol wedi eu gosod ar gyfer arolygiadau ac ymyraethau bwyd a bwyd anifeiliaid: -

### **Hylendid Bwyd**

- Byddwn yn cynnal arolygiadau hylendid bwyd mewn busnesau bwyd ac yn cymryd camau gorfodi priodol pan fo diffyg cydymffurfiaid er mwyn sicrhau fod bwyd yn ddiogel.
- Byddwn yn cyhoeddi sgoriau hylendid bwyd ar ôl arolygiadau i alluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â ble maen nhw'n prynu bwyd ac i annog busnesau i wella safonau diogelwch bwyd.

### **Safonau Bwyd**

- Byddwn yn cynnal arolygiadau safonau bwyd mewn busnesau bwyd i sicrhau fod bwyd yn ddiogel a'i fod yr hyn y mae'n honni bod.

### **Bwyd Anifeiliaid**

- Byddwn yn cynnal arolygiadau o fusnesau bwyd i sicrhau bod bwyd anifeiliaid yn ddiogel a'i fod yr hyn y mae'n honni bod.

## 2. Cefndir

### 2.1 Proffil yr Ardal

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn awdurdod lleol unedol yn ne ddwyrain Cymru, yn cynnwys ardal 126km<sup>2</sup> (49 milltir sgwâr). Mae'n un o bum awdurdod yng Ngwent ac mae ganddo ffiniau â Sir Fynwy i'r dwyrain, dinas Casnewydd i'r de a bwrdeistrefi sirol Caerffili a Blaenau Gwent i'r de orllewin a'r gogledd orllewin yn eu tro. Mae ganddo dair canolfan drefol, Pont-y-pŵl, Cwmbrân a Blaenafon, gyda chyfanswm poblogaeth o ryw 93,000. Mae llawer o ranbarth deheuol y fwrdeistref sirol o amgylch Cwmbrân yn drefol i raddau helaeth. Mae gogledd y fwrdeistref yn wyrddach ac mae wedi cadw darnau helaeth o gefn gwlad, yn enwedig ar y ffordd i Flaenafon.



Mae'r ganolfan weinyddol ym Mhont-y-pŵl yng nghanol y fwrdeistref sirol. Mae'r rhan fwyaf o weinyddiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn digwydd yng Nghanolfan Ddinesig Pont-y-pŵl. Tref Newydd Cwmbrân sydd flaenaf yn Nhorfaen ble mae cymysgedd da o dai, diwydiant ysgafn ac ardaloedd manwerthu, gan gynnwys canolfan siopa rhanbarthol fawr sy'n tyfu.



Mae trefi Pont-y-pŵl a Blaenafon yn hŷn ac yn destun strategaethau gwelliant amrywiol, er bod gan rai ardaloedd o'r trefi yma lefelau uchel o amddifadedd ac iechyd gwael. Mae hen dref lofaol a gwaith haearn Blaenafon yng ngogledd y fwrdeistref sirol nawr yn Safle Treftadaeth y Byd a gydnabyddir gan UNESCO, ac, o ganlyniad, mae'r ardal yn denu buddsoddiad newydd.

Mae gan Dorfaen sector arlwyio a manwerthu ffyniannus, a chysylltiadau ardderchog trwy briffyrdd sy'n golygu bod nifer o weithgynhyrchwyr lleol a chenedlaethol wedi dewis lleoli eu hunain yn y fwrdeistref. Mae maint a thopograffeg yr ardal yn golygu mai bach iawn o ffermio sy'n digwydd. Ar 1 Ebrill 2024, roedd yna 768 o fusnesau bwyd yn y fwrdeistref, Serch hynny, mae'r nifer yma'n newid yn gyson wrth i fusnesau gau, newid perchnogion ac wrth i fusnesau newydd gychwyn.

## 2.2 Strwythur Sefydliadol

### 2.2.1 Strwythur y Cyngor

Mae gan y Cyngor strwythur ar sail Cabinet, yn cynnwys yr Arweinydd ac Aelodau Gweithredol. Yr Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd, sy'n cynnwys Diogelu'r Cyhoedd, sy'n gyfrifol am wasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae [Cyfansoddiad](#) y Cyngor yn gosod trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau a gwneud penderfyniadau trwy gynllun dirprwyo. Mae gweithgareddau bwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys arolygu a gorfodaeth, wedi eu dirprwyo i swyddogion awdurdodedig a chymwys.

### 2.2.2 Strwythur Cyfarwyddiaethau

Mae'r gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yng Nghyfarwyddiaeth Economi ac Amgylchedd y Cyngor. Darperir gwasanaethau hylendid bwyd gan y Tîm Bwyd ac Amddiffyn Iechyd, gyda gwasanaethau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu cyflenwi gan y Tîm Safonau Masnach.

Diagram strwythur yn dangos cyfatebiaeth llawn amser (CALI) y swyddogion proffesiynol a ddyrannir at waith bwyd a bwyd anifeiliaid: -



Cyfanswm yr adnoddau a roddir at hylendid bwyd yw 4.15 CALI

Cyfanswm yr adnoddau a roddir at safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yw 1.25 CALI

### 2.2.3 Gwasanaethau Allanol

#### **Dadansoddiad cemegol a ffisegol bwyd anifeiliaid a nwyddau bwyd:**

Mae'r Cyngor wedi penodi Mr. Alastair Low o Minton, Treharne & Davies Ltd, Adran Labordai, Ystâd Ddiwydiannol Forest Farm, Longwood Drive, Coryton, Caerdydd, CF14 7HY i weithredu fel:

- Dadansoddwr Cyhoeddus, fel sy'n ofynnol o dan Adran 27 Deddf Diogelwch Bwyd 1990; a
- Dadansoddwr Amaethyddol, fel sy'n ofynnol o dan Adran 67 Deddf Amaethyddiaeth 1970;

#### **Archwilwyr Bwyd ar gyfer archwiliadau microbiolegol bwyd anifeiliaid a nwyddau bwyd a samplau ysgarthol:**

Iechyd Cyhoeddus Cymru – Labordy Caerdydd yn Ysbyty Llandochoau ar gyfer samplau bwyd ac amgylcheddol ac Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd ar gyfer samplau ysgarthol.

## 2.3 Cwmpas y Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Dynodir Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn awdurdod bwyd o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Mae timau Bwyd ac Amddiffyn Iechyd a Safonau Masnach y Cyngor yn adran Diogelu'r Cyhoedd yn gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, yn ogystal â rheoli clefydau heintus.

Mae'r gwaith yn cynnwys:

- Cynnal cofrestr o sefydliadau busnes bwyd a bwyd anifeiliaid
- Cynnal ymyraethau ar sail risg mewn busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid i wirio cydymffurfiad â deddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn unol â Chodau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
- Cymeradwyo ac arolygu busnesau bwyd sy'n trin bwyd sy'n dod o anifeiliaid o fewn cwmpas Rheoliad (CE) Rhif. 853/2004 a chymeradwyo unrhyw fusnesau bwyd anifeiliaid perthnasol
- Samplu bwyd microbiolegol ac amgylcheddol
- Samplu bwyd a bwyd anifeiliaid i wirio cydymffurfiad â gofynion cyfansoddol a labelu
- Darparu cyngor i fusnesau a defnyddwyr am faterion bwyd a bwyd anifeiliaid
- Ymchwilio i achosion a digwyddiadau o heintiau trosglwyddadwy, gan gynnwys gwenwyn bwyd, heintiau a gludir gan fwyd, a heintiau perthnasol eraill
- Ymateb i ddigwyddiadau a rhybuddion bwyd a bwyd anifeiliaid, a gweithio gyda phartion eraill

sydd â diddordeb i ymchwilio i dwyll bwyd neu drosedd bwyd drefnedig

- Gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd
- Cyflwyno rheolaethau ar fwyd a bwyd anifeiliaid wedi ei fewnforio fel awdurdod mewndirol trwy samplo, arolygu, a gorfodaeth.
- Rhoi Tystysgrifau Iechyd Allforion (TIA) i fusnesau sy'n allforio rhai bwydydd
- Ymateb i geisiadau/ymgyngoriadau'r adrannau cynllunio, trwyddedu, a'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau mewn perthynas ag eiddo bwyd a gweithgareddau cysylltiedig yn ymwneud â bwyd

## 2.4 Galwadau ar y Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

### 2.4.1 Bwyd

Ar 1 Ebrill 2024, roedd 768 busnesau bwyd yn destun rheolaeth reoleiddiol yn Nhorfaen. Mae proffil o'r busnesau yma isod ac yn dangos mai arlwyyo a manwerthu yw'r sectorau amlycaf. Mae'n rhaid i Weithredwyr Busnesau Bwyd (GBB) gofrestru eu busnesau gyda'r Cyngor, ac eithrio pan fo angen cymeradwyaeth ar y sefydliad. Mae saith o sefydliadau wedi eu cymeradwyo allan o'r 768 o fusnesau bwyd a adnabyddir, gyda dau gais ychwanegol wedi eu derbyn eisoes ar gyfer cymeradwyaeth yn 2024/25.

Proffil Busnesau Bwyd yn ôl Categori Eiddo - 1 Ebrill 2024	
Math o adeiladau (yn ôl categori'r ASB)	Nifer
Cynhyrchwyr Cynradd	0
Gweithgynhyrchwyr a Phecynnwyr	14
Mewnforwyr/Allforwyr	1
Dosbarthwyr/Cludwyr	10
Manwerthwyr (gan gynnwys Archfarchnadoedd/Uwchfarchnadoedd, Manwerthwyr Llai)	190
Arlwywyr: (gan gynnwys Bwytai a Chaffis, Gwestai, Siopau Tecawê, Tafarndai a Chlybiau, Busnesau sy'n darparu gofal, Ysgolion a Cholegau, busnesau bwyd symudol ar arlwywyr eraill)	553*
<b>Cyfanswm</b>	<b>768</b>

\* Gan gynnwys 4 masnachwr allanol

**Proffil Hylendid Bwyd Eiddo yn ôl Sgôr Risg - 1 Ebrill 2024**

<b>Categori Sgôr Eiddo</b>	<b>Nifer</b>
A	3
B	39
C	303
D	89
E	313
Heb ei Sgorio	17
Y tu allan i'r cynllun sgorio risg	4
<b>Cyfanswm</b>	<b>768</b>

**Proffil Safonau Bwyd Eiddo yn ôl Sgorio Risg - 1 Ebrill 2024**

<b>Categori Sgorio Eiddo</b>	<b>Nifer</b>
A	1
B	167
C	564
Heb ei Sgorio	40
Y tu allan i'r cynllun sgorio risg	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>772</b>

O dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 mewn perthynas â chynhyrchu, trin a storio Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid, mae yna saith o sefydliadau cymeradwy ar hyn o bryd yn gweithredu yn Nhorfaen. Mae amrywiaeth y sefydliadau'n cynnwys:

**Sefydliadau Cymeradwy - 1 Ebrill 2024**

<b>Math o Sefydliad</b>	<b>Nifer</b>
Storio oer	2
Sefydliad ail-lapio a/neu ailbacio	3
Paratoi briwgig a chig	2
Cynhyrchion cig	2
Cynhyrchion pysgod	3

Cynhyrchion Ilaeth	3
Wyau a chynhyrchion wyau	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>17*</b>

\*Dylid nodi bod rhai sefydliadau wedi eu cymeradwyo ar gyfer mwy nag un gweithgaredd

## 2.4.2 Bwyd Anifeiliaid

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am orfodaeth deddfwriaeth bwyd anifeiliaid sy'n rheoli ansawdd, diogelwch, hylendid, labelu ac olrheiniadwyedd bwyd anifeiliaid trwy'r gadwyn bwyd anifeiliaid, gan gynnwys mewnfario, gweithgynhyrchu a chynhyrchiant cynradd (bwydo anifeiliaid ar ffermydd a thyfu cnydau). Mae'r rheolaethau yma'n sicrhau diogelwch y gadwyn bwyd anifeiliaid a bwyd. Yn hanesyddol, mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau o glefydau difrifol mewn anifeiliaid fel Clefyd y Gwartheg Gwallgof a Chlwy'r Traed a'r Genau wedi eu cysylltu â bwyd anifeiliaid. Felly hefyd, mae digwyddiadau bwyd mawr fel diocsinau mewn porc wedi eu cysylltu â bwyd anifeiliaid wedi ei lygru.

Ar 1 Ebrill 2024, roedd yna 270 o fusnesau bwyd anifeiliaid a oedd yn destun rheolaethau rheoleiddiol yn Nhorfaen. Mae proffil o'r busnesau yma isod

<b>Sefydliadau Bwyd Anifeiliaid - 1 Ebrill 2024</b>	
<b>Math o Sefydliad</b>	<b>Nifer</b>
Gweithgynhyrchwyr (A01-08 and R01-04)	1
Cynhyrchwr ar y cyd (R12)	5
Cymysgydd symudol (R04)	0
Mewnforyr	0
Storiâu (R09)	0
Dosbarthwyr (A01-08, R01-03 & R05)	5
Cludwyr (R08)	0
Cymysgydd ar fferm (R11)	0
Cynhyrchwyr bwyd anifeiliaid anwes (R06)	1
Cyflenwyr bwyd dros ben (R07)	8
Ffermydd anifeiliaid byw (R13)	249
Ffermydd tir âr (R14)	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>270</b>

Ym Mawrth 2023, cyhoeddodd yr ASB y Blaenoriaethau Gorfodaeth Cenedlaethol canlynol ar gyfer gwasanaethau gorfodaeth bwyd anifeiliaid, y bydd rhai i swyddogion eu hystyried:

- Gwirio gweithredu a chynnal systemau effeithiol rheolaeth diogelwch bwyd anifeiliaid
  - a:** Gwirio ym mhob math o fusnes bwyd anifeiliaid
  - b:** Gwirio mewn cyd-gynhyrchwyr a busnesau sy'n cyflenwi cyn-fwydydd
- Gwirio gweithredu a chynnal effeithiol systemau rheolaeth diogelwch bwyd anifeiliaid mewn busnesau sy'n cyflenwi hen fwydydd neu gyd-gynhyrchion
- Monitro effeithiol o fwyd anifeiliaid ar ffermydd
  - a: Archwilio hen fwydydd / cyd-gynhyrchion sy'n cael eu defnyddio ar gyfer bwyd anifeiliaid ar ffermydd
  - b: Monitro effeithiol o weithdrefnau rheoli plâu
  - c: Gofynion cadw cofnodion ar ffermydd a gweithdrefnau wedi eu cofnodi
- Monitro effeithiol o drefniadau storio mewn adeiladau bwyd anifeiliaid
- Gwirio cywirdeb labeli bwyd anifeiliaid
- Monitro effeithiol llwythi o fwyd anifeiliaid sy'n dod o wledydd y tu allan i'r UE, wrth y pwyntiau mynediad

### 2.4.3 Galwadau Allanol ar Wasanaethau

#### Mwy o orfodaeth

Sylwodd swyddogion ar ostyngiad ar y cyfan mewn cydymffurfiad gan fusnesau gyda deddfwriaeth hylendid bwyd ar ôl y pandemig, gan osod galwadau ychwanegol ar adnoddau. Un o'r pethau sy'n dangos y gostyngiad mewn cydymffurfiad yw nifer y busnesau sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n cydymffurfio ar y cyfan â chyfraith diogelwch bwyd. Cydymffurfiad ar y cyfan yw meddu ar sgôr hylendid bwyd o 3 neu well. Cynyddodd lefel y cydymffurfiad gan fusnesau bwyd yn 2023/24 o 94.7% i 95.68%, trwy ymyraethau swyddogion i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

Hefyd, yn 2023/24: -

- a. Erlynwyd 3 busnes yn llwyddiannus am droseddau hylendid bwyd
- b. Derbyniodd 2 fusnes Rybudd Syml am droseddau hylendid bwyd
- c. Caeodd 2 fusnes o'u gwirfodd
- d. Rhoddwyd cyfanswm o 17 Hysbysiad Gwella Hylendid i 8 o fusnesau
- e. Rhoddwyd Hysbysiad Camau Cywiro i gyfyngu ar weithredoedd i 1 busnes



## Swyddogion newydd yn datblygu galluoedd

Mae swyddogion mwy newydd yn parhau i ddatblygu eu galluoedd i ymgymryd â rheolaethau swyddogol hylendid bwyd gydag awdurdod sy'n gymesur â'u gallu, sy'n golygu na allan nhw ymgymryd â'r dyletswyddau llawn. Mae pob swyddog a gyflogwyd i ymgymryd â rheolaethau swyddogol hylendid bwyd yn 2023 wedi cael eu hasesu gan y swyddog bwyd arweiniol ar gyfer hylendid bwyd, ac ystyrir eu bod yn gymwys i ymgymryd â'u dyletswyddau bwyd.

## Gweithio y tu allan i oriau

Ymgymerir ag ymyraethau mewn busnesau bwyd fel arfer yn ystod oriau swyddfa. Serch hynny, mae nifer gynyddol o fusnesau bwyd, fel siopau tecawê, dim ond ar agor gyda'r hwyr ac felly mae'n rhaid i'r tîm weithio'n hyblyg i fodloni gofynion y gwasanaeth.

## Busnesau newydd

Mae nifer y busnesau bwyd cofrestredig yn amrywio oherwydd busnesau newydd yn agor i fasnachu, busnesau cyfredol yn peidio â masnachu a busnesau ble mae yna newid mewn perchnogaeth, rheolaeth a/neu weithgareddau'n ymwneud â bwyd. Rhaid i bob busnes bwyd newydd gael eu harolygu i asesu cydymffurfiad â chyfraith bwyd a derbyn sgôr hylendid bwyd. Mae'n anodd rhagweld nifer y busnesau newydd a fydd yn dechrau masnachu. Ar sail y blynyddoedd diweddar mae parhad o gynnydd sylweddol yn nifer busnesau newydd sy'n cofrestru gyda'r Cyngor. Mae hyn yn effeithio ar feysydd eraill o waith sy'n rhan o raglen gan swyddogion hylendid bwyd a safonau bwyd. Ar 1 Ebrill 2024, roedd 17 o fusnesau newydd eu cofrestru yn aros am arolwg mewn perthynas â hylendid bwyd a 46 ar gyfer safonau bwyd.

## Rhagofalon Statudol y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)

Mae'r CSHB yn parhau i gynnwys rhagofalon i sicrhau ei fod yn deg i fusnesau. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefn apeliadau, 'hawl i ateb' a pheirianwaith ar gyfer gofyn am ail arolwg neu ail ymweliad ar gyfer ail-sgorio. Nid oes modd rhagddweud faint o waith ychwanegol sy'n dod gyda'r rhagofalon yma o flwyddyn i flwyddyn, er bod gofyn talu ffi pan wneir cais am ail ymweliad. Yn 2023-24, derbyniodd Torfaen y canlynol:-

## Rhagofalon y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd 2023-24

Math o sefydliad	Nifer
Ceisiadau am ail-arolygiad	25
Hawl i ateb	4
Apeliadau	1

### Gwybodaeth well

Mae gwybodaeth well mewn perthynas â throstedd bwyd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn parhau i gynyddu nifer y ceisiadau i weithio gyda gydag asiantaethau partner. Eto mae'n anodd mesur yr effaith ond gall fod yn sylweddol a gall effeithio ar raglenni ymyrraeth a gynllunnir.

### Effaith y technegau diagnostig molecwlwr newydd

Ers 2022-23, mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o E.coli'n cynhyrchu Shigatocsinau (O157 ac nid-O157) a oedd yn gofyn am asesiad risg ac ymchwiliad pellach oherwydd cyflwyno dulliau profi molecwlwr newydd mewn labordai microbiolog. Mae'r drefn profi newydd (PCR) yn fwy sensitif na'r dulliau traddodiadol gan gynyddu'r galw ar y gwasanaeth.

### Rheolaethau wrth Ffiniau ar fwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir

Yn Hydref 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Model Gweithredu Targed Olaf a oedd yn cyflwyno'r drefn newydd ar gyfer mewnfiorion o gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid yn dod i'r DU. Mae hyn yn debygol o effeithio ar awdurdodau mewndirol fel Torfaen, sy'n gwneud gwiriadau ar fwydydd wedi eu mewnfiorio. Mae'n amhosibl mesur yr effaith tebygol, ond bydd rhaid i swyddogion fod yn wylidwrus er mwyn sicrhau nad yw bwyd wedi ei fewnfiorio'n peri risg i ddefnyddwyr.

### Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Amgylcheddol

Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Amgylcheddol yn dal i gael eu derbyn gan y gwasanaeth, gan osod galwadau cynyddol ar swyddogion.

### Rhaglenni trawsnewidiad yr ASB

Mae'r ASB yn parhau i ganolbwyntio ar raglenni i foderneiddio sut mae busnesau'n cael eu rheoleiddio. Mae'r [Rhaglen Trawsnewidiad Gweithredol](#) a'r Rhaglen [Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau](#) yn parhau i roi mwy o bwysau ar awdurdodau lleol i oleuo'r gwaith hwn. Mae mwy o geisiadau am ddata, ymgynghoriadau a cheisiadau i gymryd rhan mewn cynlluniau peilot i gyd wedi ychwanegu at bwysau ar wasanaethau bwyd ledled Cymru.

## 2.4.4 Mynediad at Wasanaethau

Mae Gwasanaethau Bwyd a Bwyd anifeiliaid yn cael eu cyflenwi o:

Y Ganolfan Ddinesig  
Glantorvaen Road  
Pont-y-pŵl  
Torfaen  
NP4 6YB

Yr oriau swyddfa yw 9am - 5pm (Llun - Iau) a 9am - 4.30pm  
(Gwe). Ffôn: 01495 762200

Mae rhai ymyraethau a gynllunnir yn digwydd y tu allan i oriau swyddfa os oes angen. Mae modd cysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau swyddfa, gan gynnwys ar benwythnosau, er mwyn ymdrin â galwadau brys yn unig, trwy Reolwr Dyletswydd Brys y cyngor, a fydd yn cysylltu â rheolwyr yn yr adran Ddiogelu'r Cyhoedd.

## 2.5 Polisi Gorfodaeth a Chydymffurfiad

Mae gorfodaeth deg ac effeithiol yn hanfodol i warchod buddion economaidd, amgylcheddol, a chymdeithasol y cyhoedd a busnes. Gall penderfyniadau am gamau gorfodaeth, ac yn arbennig penderfyniad i erlyn, gael goblygiadau difrifol i fusnesau bwyd ac unigolion. Bydd gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Torfaen yn gorfodi deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid, mewn ffordd gymesur, yn unol ag egwyddorion 'Rheoleiddio Gwell' sydd yn y [Cod Rheoleiddwyr](#)

Mae'r Cod Rheoleiddwyr yn seiliedig ar chwech o egwyddorion eang:

- Dylai rheoleiddwyr gwblhau eu gweithgareddau mewn ffordd sy'n cefnogi'r rheiny y maen nhw'n rheoleiddio i gydymffurfio a thyfu;
- Dylai rheoleiddwyr rhoi ffyrdd syml o ymgysylltu gyda'r rheiny y maen nhw'n rheoleiddio a chlywed eu barn;
- Dylai rheoleiddwyr seilio'u gweithgareddau rheoleiddio ar risg;
- Dylai rheoleiddwyr rannu gwybodaeth am gydymffurfiad a risg;
- Dylai rheoleiddwyr sicrhau bod gwybodaeth, cyfarwyddyd a chynghor clir ar gael i helpu'r rheiny

y maen nhw'n rheoleiddio i fodloni eu cyfrifoldebau i gydymffurfio;

- Dylai rheoleiddwyr sicrhau bod eu ffordd o ymdrin â'u gweithgareddau rheoleiddiol yn dryloyw.
- Mae'n egwyddorion yma a ffordd y Cyngor o ymdrin â gorfodaeth diogelwch cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid ym [Mholisi Gorfodaeth a Gorfodaeth](#) Diogelu'r Cyhoedd. Bydd pob cam gorfodaeth yn digwydd gydag ystyriaeth o'r polisi. Ble bynnag mae hynny'n bosibl, bydd gweithgareddau gorfodaeth yn cael eu cydlynu gydag asiantaethau gorfodaeth eraill ac awdurdodau lleol
- Cefnogir y Polisi Gorfodaeth a Chydymffurfiad gan weithdrefnau ffurfiol yn ymwneud ag arolygu, samplo, trin cwynion a gorfodaeth.

## 3. Cyflenwad y Gwasanaeth

### 3.1 Ymyraethau mewn Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

#### Ymyraethau Hylendid Bwyd

Ymgymerir ag ymyraethau hylendid bwyd i sicrhau bod busnesau bwyd yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd. Mae mesurau ac amodau sy'n angenrheidiol i reoli peryglon a sicrhau addasrwydd bwydydd ar gyfer eu bwyta yn cael eu hasesu.

Mae'r tabl isod yn dangos sgoriau risg eiddo, amlder yr ymyraethau a chyfanswm yr ymyraethau hylendid bwyd i'w cyflenwi yn ystod 2024/25: -

Cynllun Ymyrraeth Hylendid Bwyd 2024-25				
Categori Sgorio Eiddo	Cyfnod lleiaf ar gyfer Ymyrraeth	Dyddiad erbyn pryd y dylai eiddo gael ymyrraeth	Nifer y sefydliadau sy'n disgwyl rheolaeth swyddogol	Targed ymyrraeth
A	6 mis	31 Mawrth 2025	3	100%
B	12 mis	31 Mawrth 2025	39	100%
C	18 mis	31 Mawrth 2025	214	100%
D	24 mis	31 Mawrth 2025	39	100%
E	36 mis	31 Mawrth 2025	127**	100%
Heb sgôr	O fewn 28 diwrnod o agor	31 Mawrth 2025	17	100%
<b>Cyfanswm yr ymyrraethau hylendid a fwriedir yn 2024/25</b>			<b>439</b>	<b>100%</b>

\*Yn cynnwys cyfanswm 85 o fusnesau a ddygwyd ymlaen o 2023/24, yn cynnwys 9 D, 69 E a 9 heb sgôr.

\*\*gall yr eiddo yma fod yn destun ymyrraeth amgen, nad yw'r cael ei hystyried yn rheolaeth swyddogol.

## Ymyraethau Ychwanegol

Yn ogystal â'r 439 o ymyraethau a fwriedir y mae eu manylion yn y tabl isod, amcangyfrifir, ar sail data'r blynyddoedd cynt, y bydd angen tua 300 o ymyraethau ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain o ganlyniad i gofrestrïadau busnesau newydd, ceisiadau am ail-sgorio o dan y CSHB statudol, ail-ymweliadau i wirio bod gwelliannau a nodwyd yn ystod arolygon cychwynnol wedi eu gwneud ac mewn ymateb i wybodaeth. Mae posibilrwydd felly o 639 o ymyraethau, er bod y ffigyrau yma'n debygol o fod yn is i gymryd i ystyriaeth busnesau'n cau.

## Ail-ymweliadau hylendid bwyd

Efallai bydd angen ail-ymweliad at fusnesau bwyd ar ôl arolygon i wirio bod gwelliannau wedi eu gwneud neu at ddibenion gorfodaeth. Mae Polisi Ail-ymweld Cymru Gyfan wedi ei gytuno, sydd gofyn am ail-ymweliad i bob busnes bwyd gyda sgôr hylendid bwyd o sero o fewn 28 diwrnod a'r rheiny sy'n sgorio 1 neu 2 i gael ail-ymweliad o fewn 3 mis.

## Ceisiadau am ail-ymweliad o dan y CSHB

Gall effaith sgôr hylendid bwyd isel ar fusnesau bwyd fod yn sylweddol, felly mae yna ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth i fusnesau ofyn am ail-ymweliad at ddibenion ail-sgorio, ble maen nhw wedi gwneud gwelliannau. Gall busnesau gyda sgôr o 3 neu 4 hefyd ofyn am ail-ymweliad ac mae hyn yn digwydd weithiau os yw busnes yn credu eu bod wedi gwella digon i gael sgôr o 5. Gan fod yr ymweliadau pellach y tu allan i raglen yr awdurdod, y busnes sy'n talu am yr ymweliad am gost a gytunir gan awdurdodau lleol ar sail Cymru gyfan.

## Ymyraethau Safonau Bwyd

Mae ymyraethau safonau bwyd yn cael eu gwneud i sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion cyfraith safonau bwyd, gan gynnwys cyflwyniad, cyfansoddiad, labelu a hysbysebu cywir, mewn ffordd nad yw'n camarwain y defnyddiwr.

Mae manylion y cynllun ymyrraeth ar gyfer safonau bwyd i'w gweld yn y tabl isod:-

**Cynllun Ymyrraeth Safonau Bwyd  
2024-25**

<b>Categori Sgorio Eiddo</b>	<b>Cyfnod Lleiaf ar gyfer Ymyrraeth</b>	<b>Nifer y sefydliadau sy'n disgwyl ymyrraeth</b>	<b>Targed Ymyrraeth</b>
A	12 mis	1	100%
B	24 mis. Dim angen ymyrraethau oni bai bod gwybodaeth yn awgrymu bod risgiau wedi cynyddu /safonau wedi gostwng neu fod y sefydliad fel arall yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth oherwydd y risg sy'n bod	72	100%
C	Strategaeth gorfodaeth amgen pob pum mlynedd. Dim angen ymyrraethau oni bai bod gwybodaeth sy'n dangos bod risgiau wedi cynyddu /safonau wedi gostwng neu fod y sefydliad fel arall yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth ar gyfer ymyrraeth oherwydd y risg sy'n bod	63	100%
Heb sgôr	-	46	100%
<b>Cyfanswm yr ymyrraethau safonau bwyd a gynllunnir ar gyfer 2024/25</b>		182	

## Ymyraethau bwyd anifeiliaid

Dilëwyd cyllid o Grant Cynnal Refeniw awdurdodau lleol yn 2015 ac fe'i rheolir nawr gan yr ASB i ariannu cyflenwad rhanbarthol o reolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid yng Nghymru. Mae'r ASB yn mabwysiadu dull ar sail risg i benderfynu nifer a natur yr ymyraethau i'w cyflawni gan bob awdurdod lleol ac mae'n talu yn uniongyrchol pan gyflawnir.

Gall Gweithredwyr Busnes Bwyd Anifeiliaid sy'n dangos safonau uchel o ddiogelwch bwyd anifeiliaid, trwy gymryd camau priodol i gydymffurfio â'r gyfraith, gael cydnabyddiaeth o'r safonau yma wrth benderfynu pa mor aml mae arolygon, ac felly bod yn gymwys ar gyfer 'Cynllun Ennill Cydnabyddiaeth'. Gall busnesau gael cydnabyddiaeth hefyd trwy fod yn aelod cydymffurfiol o gynllun sicrwydd cymeradwy yn y diwydiant, fel 'Red Tractor' neu drwy fod yn aelod o'r Confederasiwn Diwydiannau Amaethyddol.

Cytunwyd yr ymyraethau bwyd anifeiliaid canlynol ar gyfer 2024/25 yn Nhorfaen:

Categori Eiddo	Nifer y sefydliadau sy'n disgwyl ymyrraeth	Targed ymyrraeth
Fferm	75*	100%
Dosbarthwr	0	0%
Gweithgynhyrchwr	1	100%
Cyd-gynhyrchydd	1	100%
Gosod ar y farchnad deunyddiau Bwyd Anifeiliaid	1	100%
<b>Cyfanswm yr ymyraethau bwyd anifeiliaid a gynllunnir ar gyfer 2024/25</b>	<b>78*</b>	

### 3.2 Cwynion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Pwrpas ymchwilio i gwynion am fwyd a bwyd anifeiliaid, p'un ai yw'r cynnyrch yn tarddu o'r DU neu o rywle arall, yw:

- Rhoi gwasanaeth i'r cyhoedd
- Adnabod a datrys problemau sy'n peri risg i iechyd cyhoeddus neu ble mae defnyddwyr efallai wedi eu niweidio



- Nodi a yw'r cwyn efallai'n awgrymu problem genedlaethol neu ryngwladol ehangach, y mae angen mynd ag e ymhellach
- Cynnig cyngor a chyfarwyddyd, ble mae hynny'n briodol, i fusnesau bwyd a defnyddwyr
- Atal cwynion yn y dyfodol

Mae rhai cwsmeriaid yn cysylltu â chwmnïau bwyd yn uniongyrchol yn glŷn â chwynion am fwyd a bwyd anifeiliaid, fel ffordd o gael iawn wedi ei wneud am yr anghyfleustra iddynt.

Polisi'r cyngor ar gwynion am fwyd a bwyd anifeiliaid yw ymchwilio ble mae yna oblygiad iechyd cyhoeddus go iawn, neu ble mae trosedd efallai wedi digwydd ac mae'r sawl sy'n cwyno'n fodlon rhoi tystiolaeth yn y Llys. Mae cwsmeriaid yn cael eu cyfeirio at y mân-werthwr os mai dim ond iawndal sy'n cael ei geisio.

Mae gan y cyngor weithdrefnau ar gyfer delio â chwynion bwyd. Mae pob un yn cael eu cydnabod o fewn pum diwrnod, eu blaenoriaethu yn ôl risg, a'u hymchwilio fel sy'n briodol heb oedi gormodol, gan ystyried difrifoldeb y cwyn a'r angen i ddiogelu tystiolaeth. Nid yw cwynion dienw'n cael eu hymchwilio fel arfer.

Ar ôl cwyn, efallai bydd swyddog yn ymchwilio er mwyn cael gwybodaeth am y ffeithiau, cael tystiolaeth a, ble mae angen, lleihau'r risg. Bydd hyn yn aml yn gofyn am gael sampl o fwyd neu fwyd anifeiliaid, na fyddai'n rhan o'r rhaglen sampl. Efallai bydd angen cefnogaeth gan y Dadansoddydd Cyhoeddus a/neu labordy Iechyd Cyhoeddus Cymru i gwblhau ymchwiliadau, a gallai fod yna oblygiadau ariannol i'r gwasanaeth.

Mae'n anodd rhagweld faint o gwynion gaiff eu derbyn yn 2024/2025. Ar sail nifer y cwynion a dderbyniwyd dros y pedair blynedd diwethaf, amcangyfrifir y bydd nifer o gwynion fel a ganlyn yn cael eu derbyn yn y cyfnod 2024/25.

Math o gwyn (cyfartaledd ar sail data'r 4 blynedd ddiwethaf)	Nifer
Hylendid bwyd (eiddo)	32
Cwyn bwyd (diogelwch)	23
Bwyd (arall)	14
Cwyn bwyd (safonau)	10
Cwyn bwyd anifeiliaid	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>79</b>

### 3.1 Egwyddor Awdurdod Cartref a'r Cynllun Prif Awdurdod

Er nad oes gan y cyngor ar hyn o bryd gytundebau ffurfiol mewn grym i weithredu fel Prif Awdurdod ar gyfer unrhyw fusnesau bwyd, mae swyddogion yn cefnogi'r cynllun Prif Awdurdod ac yn ystyried yr egwyddorion a chyfarwyddyd perthnasol wrth ddelio ag unrhyw fusnesau bwyd mewn partneriaeth Prif Awdurdod.

Mae swyddogion yn cydnabod rôl Prif Awdurdodau wrth sicrhau dull cyson o orfodaeth. Rhoddwyd hyfforddiant Prif Awdurdod, gan gynnwys y trefniadau penodol ar gyfer arolwg a gorfodaeth, i swyddogion i sicrhau eu bod yn deall dulliau y mae gofyn i reoleiddwyr eu cymryd fel awdurdodau gorfodi.

Gall pob swyddog fynd at wefan y Prif Awdurdod a byddant yn ystyried egwyddorion y Prif Awdurdod. Cyn ymgymryd ag ymyraethau wedi eu cynllunio, maen nhw fel arfer yn gwirio'r Gofrestr Prif Awdurdod ar-lein i weld a oes gan y busnes bartneriaeth Prif Awdurdod ac, os felly, a oes yna gynllun arolygu penodol neu gyfarwyddyd sicr y mae'n rhaid iddyn nhw ei ystyried. Bydd swyddogion yn cyflwyno canfyddiadau yn ôl y gofyn i'r Prif Awdurdod a'r busnes ill dau. Os oes cyfiawnhad am gamau gorfodaeth, bydd swyddogion yn sicrhau y byddan nhw'n hysbysu'r Prif Awdurdod cyn cymryd camau o fewn y cyfnod penodedig neu o edrych yn ôl os bydd risg buan i iechyd.

Y Cyngor yw'r 'awdurdod cychwynnol' ar gyfer cynhyrchwyr bwyd, gweithgynhyrchwyr bwyd a busnesau bwyd eraill sy'n cyflenwi bwyd y tu allan i Dorfaen, a bydd yn rhoi cyngor i fusnesau perthnasol ar gydymffurfriad cyfreithiol. Hefyd, ystyrir unrhyw wybodaeth neu gyngor a dderbynnir gan awdurdodau Cartref neu gychwynnol unrhyw le arall. Bydd swyddogion yn cysylltu ag awdurdod Cartref neu Gychwynnol unrhyw fusnes ble mae'r diffyg cydymffurfriad a nodir yn ymddangos fel petai'n gysylltiedig â pholisïau a gweithdrefnau'r busnes.

Bydd y cyngor yn ymateb i bob cais rhesymol am wybodaeth a/neu gymorth gan awdurdodau eraill ynglŷn â bwyd a gynhyrchir yn lleol ac a werthir y tu allan i Dorfaen, ac sy'n destun cwyn.

## 3.2 Cyngor i Fusnesau

Bydd rhoi cyngor amserol o ansawdd da i fusnesau yn parhau'n flaenoriaeth, yn arbennig o ran Gadael yr UE. Mae'n bodloni rhwymedigaethau'r cyngor o dan y Cod Rheoleiddwyr i helpu busnesau i dyfu.

- Fel arfer, bydd swyddogion yn dweud wrth fusnesau pa gamau y mae angen iddyn nhw gymryd i'w galluogi i gael sgôr hylendid bwyd uwch.
- Rhoddir cyngor achlysurol ar gais a, ble mae'n angenrheidiol, caiff busnesau wybod sut allan nhw gael cefnogaeth arbenigol.
- Gan weithio'n agos â Chyswllt Busnes Torfaen, caiff gwelliannau pellach eu gwneud i'r cyngor sydd ar gael ei fusnesau ar dudalennau'r Cyngor ar y we.
- Mae manylion o'r hyn sydd i'w ddisgwyl yn ystod arolwg ar gefn adroddiadau arolygon, sy'n cael eu gadael ar y safle ar ôl arolwg, ynghyd â manylion cyswllt y swyddog.
- Rhoddir Cyngor yn gyffredinol ar ohebiaeth a ddanfonir ar ôl ymyraethau. Yn ogystal â manylion tor-cyfraith a gofynion cyfreithiol, rhoddir cyngor ar arfer gorau.
- Pan fo deddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno, rhoddir gwybodaeth wedi ei thargedu i fusnesau yn y ffordd fwyaf effeithiol, e.e., trwy lythyr, e-bost.
- Cynigir cyngor busnes ar safonau bwyd i bob busnes wrth y pwynt cyswllt, h.y. dros y ffôn, yn ystod arolwg neu ar ôl arolwg trwy daflen gyngor neu drwy lythyr.
- Mae gwybodaeth eglur a thryloyw wedi ei rhoi i fusnesau bwyd, ar ôl ymyrraeth hylendid, ynglŷn â sut i roi adborth ar y gwasanaeth a roddwyd gan y tîm.

Mae'n anodd rhagweld nifer y ceisiadau am gyngor a dderbynnir pob blwyddyn. Gall ffactorau fel cyflwyno deddfwriaeth a/neu gyfarwyddyd newydd neu ddyfodiad nifer o fusnesau newydd gynyddu nifer y ceisiadau a dderbynnir. Serch hynny, ar sail tueddiadau'r pedair blynedd ddiwethaf, amcangyfrifir y bydd tua 155 o geisiadau (132 ar gyfer hylendid bwyd, 20 ar gyfer safonau bwyd, a 3 ar gyfer bwyd anifeiliaid) am gyngor busnes yn cael ei derbyn am hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn ystod y flwyddyn

## 3.3 Samplo Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Ymgymerir â samplo bwyd a bwyd anifeiliaid yn unol â Chodau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, polisi samplo'r Cyngor a gweithdrefnau samplo.

Pan fo samplau'n methu â chyrraedd y safonau gofynnol, gwneir ymchwiliadau i weld achos y methiant, a chymerir camau priodol i sicrhau diogelwch ac ansawdd cynhyrchion bwyd yn y

gadwyn fwyd

Gwneir samplu trwy archwilio a dadansoddi i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau ar gyfer diogelwch microbiolegol, labeli, ansawdd cemegol a chyfansoddol, a gellir gwneud hyn:

- fel rhan o arolwg a gynllunnir, casglu gwybodaeth
- pan fo cwyn wedi ei dderbyn sy'n gofyn am ymchwiliad pellach
- at ddibenion gorfodaeth, pan fo pryderon am arferion diogelwch bwyd a nodwyd yn ystod ymyrraeth neu o wybodaeth a dderbyniwyd
- fel rhan o brosiect samplu a gydlynir yn genedlaethol, yn draws-ranbarthol neu'n lleol
- pan fo adroddiad ble honnir neu cadarnheir gwenwyn bwyd sy'n rhan hanfodol o ymchwiliad llawn o achos a chyfrwng y rheolaeth
- fel rhan o reolaeth a ariannwyd gan yr ASB ar fwyd a fewnforiwyd neu raglen samplu arall a gydlynwyd
- ar gyfer samplau Awdurdod Cartref a Chychwynnol;
- ar gyfer monitro proses a gwirio;
- yn ôl cyfarwyddyd yr ASB ar ôl hysbysiad o ddigwyddiadau diogelwch bwyd a rhybuddion bwyd ar gyfer gweithredu

Mae rhaglenni samplu blynyddol yn cael eu llunio a'u gweithredu i adlewyrchu nifer, natur a sgoriau risg y busnesau bwyd yn Nhorfaen, gan gymryd i ystyriaeth rhwymedigaethau Awdurdod Cychwynnol, rhaglenni samplu a gydlynir yn genedlaethol ac yn ranbarthol.

### **Samplo Hylendid Bwyd**

Mae Cyngor Torfaen yn derbyn dyraniad blynyddol ar gyfer samplu microbiolegol gan lechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi'r awdurdod i gymryd tua 180 o samplau'r flwyddyn. Nid yw'r dyraniad yn cynnwys samplu Cyflenwadau Dŵr Preifat (sy'n cael eu hariannu trwy gael taliadau gan y perchnogion / defnyddwyr) na samplau bwyd a gyflwynir i'r Dadansoddwr Cyhoeddus a benodwyd gan yr awdurdod ar gyfer archwiliad anficriolegol.

Mae'r cynllun samplu'n cael ei oleuo gan flaenoriaethau gan Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru ac asiantaethau fel yr ASB, lechyd Cyhoeddus Cymru ac Asiantaeth Diogelwch lechyd y DU.

Sefydlwyd Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru i gydlynu samplu ac archwilio bwydydd parod a

chasglu canlyniadau Cymru'n ganolog. Pob blwyddyn, cytunir ar arolwg o gynhyrchion sy'n cael eu samplo wedyn ledled Cymru. Mae cymryd rhan yn yr arolwg hwn yn helpu i nodi bwydydd nad ydynt yn cydymffurfio, yn dod â gwybodaeth ddefnyddiol, ac yn galluogi cymryd camau i warchod iechyd cyhoeddus pan fo cynhyrchion anniogel yn cael eu nodi.

Wrth i'r Cyngor ddychwelyd at fusnes yn ôl yr arfer, bydd samplo microbiolegol yn cael ei wneud mewn ffordd ragweithiol yn 2024/25 a bydd yn cael ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth i gefnogi cyflenwi Strategaeth Gorfodaeth Amgen.

Roedd arolygon wedi eu targedu yn 2023/24 yn cynnwys samplo'r caws ar werth neu a gynhyrchwyd yng Nghymru, ar ôl nifer o hysbysiadau galw yn ôl ar gyfer caws ledled y DU, a salad (gan gynnwys bwyd gwyrdd micro) sy'n cael ei baratoi ar y safle mewn busnesau manwerthu neu arlwyo, gan fod bwyta bwyd heb ei goginio yn gallu bod yn ffactor risg ar gyfer salwch a gludir trwy fwyd.

### **Dod â Gwerth Ychwanegol i Samplo**

Mae'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn gosod allan yr hyblygrwydd y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth wneud rheolaethau swyddogol fel a ganlyn: -

Mae'n rhaid i sefydliadau ym mandiau risg A a B sy'n cael sylw pob 6 neu 12 mis dderbyn rheolaeth swyddogol, sef arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad sy'n cael ei sgorio yn ôl risg yn unol ag Atodiad 1 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Gall sefydliadau ym mand risg C (ymyrraeth pob 18 mis) fod yn destun rheolaeth swyddogol, sef naill ar arolygiad llawn neu rannol neu archwiliad. Serch hynny, os yw'r eiddo'n cydymffurfio ar y cyfan â chyfraith bwyd (h.y., sgôr hylendid bwyd o 3, 4 neu 5) gall y rheolaeth swyddogol newid am yn ail rhwng:

- arolygiad, arolygiad rhannol, neu archwiliad, a
- math arall o reolaeth swyddogol fel samplo, goruchwyliaeth, dilysu a gwirio

Gall ymyraethau mewn sefydliadau ym mand risg D (ymyrraeth pob 2 flynedd) newid am yn ail rhwng rheolaeth swyddogol neu ymyrraeth nad yw'n rheolaeth swyddogol. Yr eithriad i hyn yw pan fo sefydliadau yn cael eu sgorio 30 neu 40 ar gyfer "math o fwyd a dull trin" yn Atodiad 1. Yn yr achosion yma, rhaid i'r rheolaeth fod yn arolygiad, yn arolygiad rhannol, neu'n archwiliad.

Gall sefydliadau ym mand risg E (ymyrraeth pob 3 blynedd) fod yn destun Strategaeth Gorfodaeth Amgen.

## **Meini Prawf Dewis Eiddo**

Gellir categoraiddio cynllun samplo Torfaen fel un sydd naill ai'n rhagweithiol neu'n adweithiol.

Mae samplo rhagweithiol yn cynnwys cyfranogiad yr awdurdod mewn rhaglenni / arolygon lleol, rhanbarthol neu genedlaethol.

Gall samplo adweithiol gynnwys bwyd a gysylltir ag achosion a gadarnhawyd neu a honnwyd o wenwyn bwyd, a phan fo gan swyddogion bwyd bryderon am arferion trin bwyd yn ystod ymchwiliadau.

Ble mae'n bosibl, bydd eiddo a ddewisir ar gyfer samplo rhagweithiol yn cael eu tynnu o blith y rheiny oedd yn disgwyl ymyrraeth hylendid bwyd yn y flwyddyn rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Bydd hyn yn cynnwys eiddo ble mae ymyrraeth yn hir-ddisgwyliedig ers y flwyddyn gynt.

Pan fo samplau boddhaol yn cael eu cymryd o sefydliadau ym mandiau risg D ac E (ac eithrio'r rheiny sy'n sgorio 30 neu 40 ar gyfer "math o fwyd a dull trin bwyd"), byth yr ymyrraeth nesaf yn cael ei symud ymlaen 2 neu 3 blynedd yn eu trefn. Ni fydd sgôr hylendid bwyd yn cael ei newid yn yr achosion hyn.

Pan fo samplau anfoddhaol yn cael eu cymryd, ystyrir ymyrraethau pellach er mwyn ymchwilio a oedd gan y sefydliad reolaeth dros bresenoldeb / twf yr organeddau a ganfuwyd. Os gwneir arolygiad, arolygiad rhannol, neu archwiliad wedyn, bydd sgôr risg newydd yn cael ei roi yn unol ag Atodiad 1 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a bydd y sefydliad yn derbyn sgôr hylendid bwyd newydd.

Bydd samplo hefyd yn cael ei wneud mewn sefydliadau lle nad oes disgwyl ymyrraeth yn ystod y flwyddyn er m wyn cymryd rhan mewn arolygon, ymateb i gwynion neu bryderon a monitro safonau microbiolegol mewn ffatrioedd, gan gynnwys y rheiny a gymeradwywyd o dan Reoliad (CE) a gymhathwyd rhif 853/2004.

## **Samplo Safonau Bwyd**

Mae gan y Cyngor gyllideb gyfyngedig ar gyfer samplo safonau bwyd a bydd yn gwneud cais yn

rhagweithiol am ariannu ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn pan ddaw cyfleoedd. Pennir blaenoriaethau ar ôl ystyried gwybodaeth leol a chenedlaethol, risgiau i ddefnyddwyr o ran diogelwch neu golled economaidd, data o raglen samplu'r flwyddyn flaenorol, a risgiau a blaenoriaethau sy'n datblygu ac a nodir gan wybodaeth leol a chenedlaethol.

Bydd Torfaen yn parhau i gefnogi cyrch OPSON, cynllun byd-eang a gydlynir gan Europol - INTERPOL sy'n canolbwyntio ar fwyd ffug ac ansafonol, a'r rhwydweithiau trosedd trefnedig sydd y tu ôl i'r fasnach anghyfreithlon hon. Yn y DU, cydlynir y gweithgareddau gan Uned Trosedd Bwyd Genedlaethol yr ASB (NFCU).

Mae cynllun samplu safonau bwyd 2024-25 yn Atodiad 1.

### **Samplo Bwyd Anifeiliaid**

Dyrannir ariannu awdurdod lleol ar gyfer samplu bwyd anifeiliaid gan yr ASB. Mae samplu'n cael ei ganolbwyntio mewn mynedfeydd i'r wlad a chynhyrchwyr bwyd anifeiliaid yn y DU, felly does dim cynlluniau i samplu bwyd anifeiliaid yn Nhorfaen yn ystod 2024/25.

## **3.4 Rheolaeth ac Ymchwiliadau i Gychwyn Clefydau Heintus yn Gysylltiedig â Bwyd**

### **Achosion unigol o Wenwyn Bwyd a Salwch a Gludir gan Fwyd**

Bydd swyddogion yn gweithio'n agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i achosion honedig o heintiau yn gysylltiedig â bwyd yn unol â gweithdrefnau a bennir. Mae'r dulliau o ymateb ac ymchwilio'n amrywio yn ôl risg ac mae'n seiliedig ar natur y salwch a'r organedd sy'n ei achosi. Gall yr ymateb fod trwy ymweliad, dros y ffôn neu drwy holiadur trwy'r post.

### **Alldoriadau o Salwch a Gludir gan Fwyd**

Yn ogystal ag ymchwilio parhaus i achosion achlysurol o salwch a gluder gan fwyd, mae swyddogion hefyd yn nodi ac yn ymchwilio i alldoriadau. Diffinnir alldoriad fel salwch sy'n effeithio ar ddau neu fwy o bobl sydd â ffactor ddadlennu cyffredin a gysylltir gan amser, lle neu berson. Weithiau, mae alldoriadau'n cael eu hachosi gan Norofirws a amheuir ble mai'r ffordd fwyaf cyffredin o drawsgludo yw naill ai o berson i berson neu ddifwyniad amgylcheddol, yn hytrach na thrawsgludiad gan fwyd.

Ymgwymerir â gwaith sylweddol i gefnogi lleoliadau addysgol a chartrefi gofal, yn arbennig yn ystod y gaeaf er mwyn lleihau'r amhariad a achosir gan yr heintiau feirysol yma.

Mae alldoriadau o salwch a gludir gan fwyd yn digwydd dim ond yn achlysurol. Os digwydd alldoriad, mae swyddogion yn gweithredu'n unol â [Chynllun Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru](#) Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n gosod gerbron y dull o reoli alldoriadau o glefydau trosglwyddadwy ac a ddilynir gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r Cynllun yn gofyn am ddynodi Swyddog Arweiniol ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy ym mhob awdurdod lleol. Mae gan Dorfaen Swyddog Arweiniol enwebedig ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy sy'n cael eu cefnogi gan swyddogion cymwys eraill wrth gwblhau ymchwiliadau.

Os bydd alldoriad, bydd y Swyddog Arweiniol dros Glefydau Trosglwyddadwy yn aelod craidd o'r Tîm Rheolaeth Alldoriad a bydd ganddynt gyfrifoldebau penodol, gan gynnwys cysylltu â a chyfweld ag unigolion sydd wedi eu heffeithio, cymryd samplau, ymchwilio mewn adeiladau bwyd cyfrannog, a mynychu cyfarfodydd y Tîm Rheolaeth Alldoriad. Gan ddibynnu ar faint a math yr alldoriad, gall ymchwiliadau fod yn ddrud a gallant effeithio ar waith arall a gynllunnir.

Mae ymchwilio i achosion ac alldoriadau clefyd a gludir gan fwyd fel arfer yn cynnwys: -

- Derbyn a gwirio unigion a gadarnhawyd gan labordy o Labordai Microbiolegol Iechyd Cyhoeddus Cymru (trwy Tarian) ac adroddiadau heb eu cadarnhau o wenwyno bwyd gan ymarferwyr iechyd, aelodau'r cyhoedd, achosion, cyflogwyr, awdurdodau lleol eraill
- Cyfweliadau dros y ffôn ac, yn llai aml, wyneb yn wyneb gydag achosion, cysylltiadau agos a rhoi cyngor ar reolaeth haint;
- Rheoli allgau achosion a phobl gysylltiedig o'r gweithle, ysgolion a lleoliadau gofal iechyd;
- Cysylltu â Meddygfeydd, ysbytai, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a rhanddeiliaid eraill yn ystod ymchwiliadau at ddibenion nodi tarddiad haint ac atal trosglwyddiad pellach;
- Ymgymryd ag ymweliadau â safleoedd i osod rheolaethau ac ymyraethau ataliol;
- Rheoli casglu a chyflwyno samplau ysgarthol;
- Casglu, dadansoddi ac adrodd am ddata'n ymwneud â salwch a gludir gan fwyd;
- Ymchwilio a rheoli alldoriadau o glefydau trosglwyddadwy ble mai bwyd neu ddŵr yw cyfrwng yr haint, neu fe amheuir hynny.



- Arwain, a chyfrannu at gynlluniau lleol a chenedlaethol ar heintiau trosglwyddadwy a rhaglenni gwylidwriaeth.

Mae'n anodd amcangyfrif nifer yr achosion neu alldoriadau o heintiau yn ymwneud â bwyd a ymchwilir yn 2024/25. Serch hynny, ar sail data'r pedair blynedd ddiwethaf, amcangyfrifir fel a ganlyn:

<b>Heintiau Trosglwyddadwy 2024-2025 (ar sail data'r 4 blynedd ddiwethaf)</b>	
<b>Math o ymchwiliad</b>	<b>Nifer</b>
Hysbysiadau Clefyd Heintus	204
Nifer yr alldoriad/digwyddiadau	7
Nifer y ceisiadau am wasanaeth	25

### 3.5 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd Anifeiliaid a Bwyd

Mae digwyddiad bwyd yn digwydd pan fo pryderon o gylch diogelwch neu ansawdd bwyd (a/neu fwyd anifeiliaid) a allai fod ag angen am gamau i ddiogelu defnyddwyr.

Mae digwyddiadau'n syrthio'n gyffredinol i ddau gategori:

- halogi bwyd neu fwyd anifeiliaid wrth brosesu, dosbarthu, manwerthu ac arlwyo
- digwyddiadau llygredd amgylcheddol fel tân, cemegion/olew yn gollwng ac ymbelydredd yn gollwng

Mae gan y Cyngor drefniadau i ymateb i rybuddion bwyd ar gyfer cymryd camau a digwyddiadau diogelwch bwyd a gyfathrebir gan yr ASB. Mae swyddogion bwyd a bwyd anifeiliaid yn tanysgrifio i system *Hwyluso Cyfathrebu* ac, o ganlyniad maen nhw'n derbyn rhybuddion bwyd yn uniongyrchol trwy e-bost. Mae'r ASB yn rhoi tri math o rybudd bwyd:

- Rhybuddion Bwyd ar gyfer Gweithredu
- Hysbysiadau Gwybodaeth Galw Cynnyrch yn Ôl
- Rhybuddion Alergeddau sy'n rhoi gwybodaeth yn uniongyrchol i ddefnyddwyr

Rhoddir Hysbysiad Gwybodaeth Tynnu Cynnyrch yn Ôl neu Hysbysiad Gwybodaeth Galw Cynnyrch Yn Ôl pan fo ateb i'r broblem wedi ei gyflwyno. Mae'r cynnyrch wedi ei dynnu'n ôl neu yn cael ei dynnu'n ôl o gael ei werthu, neu wedi cael ei alw'n ôl o ddefnyddwyr, er enghraifft.

Rhoddir Rhybudd Bwyd ar gyfer Cymryd Camau ble mae angen ymyrraeth gan awdurdodau gorfodi. Yn achos rhybuddion bwyd sy'n gofyn am gamau, bydd y tîm yn sicrhau bod yr holl gamau a bennir yn cael eu cymryd yn unol â'r cyngor a roddir gan yr ASB. Bydd swyddogion hefyd yn dilyn gweithdrefnau a bennir, gan amlinellu trefniadau gweithredol ar gyfer ymdrin â digwyddiadau o'r fath yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Gall ymateb i rybuddion olygu cysylltu neu ymweld ag adeiladau ble mae cynnyrch bwyd dan amheuaeth yn debygol o fod ar werth.

Pan fo swyddogion yn dod yn ymwybodol o ddigwyddiad lleol difrifol, neu broblem ehangach gyda diogelwch bwyd, byddan nhw'n hysbysu'r ASB yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Os bydd helynt bwyd anifeiliaid yn Nhorfaen, cysylltir â'r ASB yn syth. Caiff natur a graddfa'r digwyddiad eu cadarnhau cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod unrhyw fwyd anifeiliaid sydd dal o gwmpas yn cael ei gipio. Bydd digwyddiadau diogelwch bwyd anifeiliaid yn cael blaenoriaeth cyn gweithgareddau arolygu a samplio

Er ei fod yn anodd rhagweld nifer y digwyddiadau bwyd/bwyd anifeiliaid a gaiff eu derbyn mewn unrhyw flwyddyn, gall yr ymchwiliadau yma gael effaith sylweddol ar y rhaglenni ymyrraeth a gynllunnir. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae nifer y digwyddiadau sy'n gofyn am gamau gan yr awdurdod lleol wedi amrywio.

### 3.6 Cysylltiadau â Sefydliadau Eraill

Mae cysylltu'n beirianwaith priodol ar gyfer sicrhau cysondeb rhwng gorfodwyr, rhannu arfer da, rhannu gwybodaeth, a dweud wrth orfodwyr eraill am sefyllfaoedd anodd posibl.

Y prif randdeiliaid ar gyfer gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid yw: -

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Cyfarwyddwyr Diogelu Cyhoedd Cymru – Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd;
- Cyfarwyddwyr Diogelu Cyhoedd Cymru - Panel Arbenigwyr Clefydau Trosglwyddadwy;
- Panel Bwyd Penaethiaid Safonau Masnach Cymru; Panel Bwyd ac Amaethyddiaeth
- Grŵp Cysyllt Rhanbarthol Cyfarwyddwyr Diogelu Cyhoedd Cymru
- Grŵp Bwyd Gwent
- Swyddog Bwyd Anifeiliaid Rhanbarthol Gwent
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru
- Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru.
- Cyswllt â chyrrff proffesiynol fel Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol, Sefydliad Siartredig

Safonau Masnach, Cymdeithas Frenhinol Iechyd, Sefydliad Brenhinol Iechyd Cyhoeddus

- Arolygaeth Safonau Gofal Cymru
- Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch
- Grwpiau ymgynghorol, e.e. Grŵp Ffocws Hylendid Bwyd Cenedlaethol.
- Cyswllt â gwasanaethau eraill y Cyngor, fel Trethi Busnes, Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu i arolygu ac adolygu ceisiadau
- Llywodraeth Cymru
- Uned Data Llywodraeth Leol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Ymgynghorwyr mewn Rheolaeth Clefydau Trosglwyddadwy, microbiolegwyr, labordai yn Ysbytai Llandochoau a'r Waun
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Canolfan Peryglon Ymbelydrol a Chemegol ac Amgylcheddol
- Labordai dadansoddwyr cyhoeddus - Minton Treharne and Davies, Cross Hands a Chaerdydd
- Pwyllgor Bwyd Diogel Cynaliadwy Dilys Cymru
- Dŵr Cymru mewn perthynas â datgysylltu dŵr.
- Yr Arolygaeth Dŵr Yfed mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat mewn eiddo bwyd masnachol

### **3.9 Gwaith Hyrwyddol Diogelwch a Safonau Bwyd Anifeiliaid a Bwyd ac Ymyraethau Rheoli Answyddogol Eraill**

Bydd y Gwasanaeth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hyrwyddol pan fydd y rhain yn briodol i anghenion a blaenoriaethau lleol, a ble mae adnoddau'n caniatáu, ond nid ar draul y gweithgareddau diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid eraill fel arolygon, ymchwilio i gwynion etc.. O ganlyniad, mae'n anodd rhagweld effaith gweithgareddau hyrwyddol ar adnoddau.

Mae'r cyngor yn parhau'n ymrwymedig at barhau i hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ac yn bwriadu cynyddu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol a gwefan y cyngor i hyrwyddo negeseuon Diogelwch Bwyd a, ble mae adnoddau'n caniatáu, bydd yn gwneud defnydd o unrhyw becynnau a gaiff eu cynhyrchu gan yr ASB at y diben hwn.

Mae swyddogion safonau bwyd hefyd yn ymrwymedig at barhau i hyrwyddo'r adnodd alergenau bwyd amlieithog Gwent Fwyaf ar gyfer busnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon, i helpu i warchod y tua ddwy filiwn o bobl yn y DU, sy'n byw gydag alergedd bwyd heb ddiagnosis.

## 4 Adnoddau

### 4.1 Dyranriad Ariannol

Mae'r gyllideb ar gyfer rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol yn 2024-2025 wedi ei rhannu fel a ganlyn:

Cyllideb y Gwasanaeth Bwyd	
Gwariant	Cyllideb
Staffio	£489,559
Teithio a chynhaliaeth	£2,515
Hyfforddiant a datblygiad	£5,113
Cyflenwadau a gwasanaethau	£9,374
Samplo – Hylendid Bwyd	£2,277
Samplo – Safonau Bwyd/Bwyd Anifeiliaid	£6,215
<b>Cyfanswm</b>	<b>£515,053</b>

Mae gan yr awdurdod gyfreithiwr ar gyfer y Gwasanaeth ar gyfer unrhyw gamau cyfreithiol angenrheidiol.

Mae'r gyllideb ar gyfer rheolaethau bwyd swyddogol wedi cynyddu ers 2019/20 (adroddiad diweddaraf y System Monitro Gorfodaeth Awdurdodau Lleol (LAEMS)) oherwydd mwy o adnoddau o ran swyddogion a roddir i hylendid bwyd trwy greu swydd SIA ychwanegol. Cyflogodd yr awdurdod hefyd wasanaethau Contractwr Diogelwch Bwyd yn 2022/23 a defnyddiodd arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer swydd SIA pellach tan 31 Mawrth 2024 i gefnogi ein hadferiad ar ôl Covid-19 a'r ymateb i warchod iechyd.

Dilëwyd arian bwyd anifeiliaid o Grant Cymorth Refeniw awdurdodau lleol yng Nghymru yn Ebrill 2015 er mwyn hwyluso sefydlu model cyflenwad rhanbarthol a thargeddu mwy effeithiol o adnoddau at feysydd â'r perygl mwyaf. Mae'r cyngor yn ymrwymedig i'r model cyflenwad rhanbarthol ac wedi ymgymryd ag arolygon ar ran awdurdodau lleol eraill yng Ngwent er mwyn sicrhau llwyddiant y model.

Mae arian ar gyfer rheolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid nawr yn nwylo'r ASB, sy'n ei roi i awdurdodau lleol ar sail nifer a math yr eiddo a arolygir. Mae cynllun gwaith bwyd anifeiliaid yr awdurdod lleol yn cael ei gytuno gyda'r ASB bob blwyddyn. Derbyniodd Torfaen incwm o £4,860.95 o arian bwyd anifeiliaid gan yr ASB yn 2023/24.

## 4.2 Dyranriad Staffio

Y dyranriad staffio ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid a materion cysylltiedig, gan gynnwys rheolaeth strategol a chefnogaeth weinyddol yw 5.6 Cyfystyr ag Amser Llawn (CALI):

- 1 Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd 0.1 CALI
- 1 Rheolwr Bwyd ac Amddiffyn Iechyd 0.25 CALI
- 1 Rheolwr Trwyddedu a Safonau Masnach 0.25 CALI
- 3 Uwch Swyddog Iechyd Amgylcheddol 1.5 CALI
- 2\* Swyddog Iechyd Amgylcheddol 1.6 CALI
- 1 Intern Bwyd ac Amddiffyn Iechyd 0.8 CALI
- 1 Uwch Swyddog Safonau Masnach 0.5 CALI
- 2 Uwch Swyddog Masnach Deg 0.5 CALI
- 1 Cefnogaeth Weinyddol 0.1 CALI

\* Cyflogodd yr awdurdod hefyd SIA wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru (tan 31 Mawrth 2024) y rhoddwyd ei amser i gyflawni rheolaethau bwyd yn unol â gofynion a blaenoriaethau'r gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd.

Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd y Cyngor yw arweinydd strategol Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru ar gyfer materion bwyd a bwyd anifeiliaid, ac mae'n aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Bwyd y Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol

Mae'r Rheolwr Bwyd a Gwarchod Iechyd yn swyddog hylendid bwyd cymwys ac mae'n gweithredu ar hyn o bryd fel yr Arweinydd Rheolaeth Clefydau Trosglwyddadwy. Serch hynny, nid yw'r Rheolwr Trwyddedu a Safonau Masnach yn swyddog bwyd cymwys, ond mae ganddyn nhw rôl bwysig wrth reoli staff, goruchwyllo ac adrodd ac adrodd ar gyflenwad y gwasanaeth.

Mae yna dri swyddog sy'n gymwys ac wedi eu hawdurdodi i gyflenwi ystod lawn y rheolaethau diogelwch a hylendid bwyd swyddogol o dan Reoliad a Gymhathwyd (CE) Rhif 853/2004. Mae'r swyddogion sy'n weddill yn ymgymryd â dyletswyddau rheolaeth bwyd swyddogol yn unol â'u cymwysterau, eu gallu a'u hawdurdod.

Mae yna bum swyddog sy'n gymwys ac wedi eu hawdurdodi i gymryd yr ystod lawn o gamau gorfodaeth mewn perthynas â hylendid a diogelwch bwyd, gan gynnwys cipio a chadw bwyd, a rhoi Hysbysiadau Gwahardd Camau Cywiro ac Argyfwng Hylendid. Mae'r swyddogion sy'n weddill yn cymryd camau gorfodaeth ffurfiol sy'n gyfyngedig at eu cymhwyster, eu gallu a'u hawdurdod.

Mae yna dri swyddog sy'n gymwys i gyflawni'r ystod lawn y rheolaethau safonau bwyd swyddogol, sydd gyfystyr â 1.0 swyddog CALI. Mae gan ddau swyddog bwyd pellach y cymhwyster safonau bwyd perthnasol.

Mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, mae yna un swyddog cymwys, sydd gyfystyr â thua 0.13 swyddog cymwys CALI yn cyflenwi rheolaeth bwyd anifeiliaid swyddogol.

Cyfyngir y gymeradwyaeth gychwynnol o eiddo sy'n destun deddfwriaeth sy'n berthnasol i gynnyrch i'r swyddogion awdurdodedig hynny sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'r eiddo hynny ac sy'n cael eu hystyried yn gymwys gan y Swyddog Arweiniol ar gyfer Hylendid Bwyd. Ar hyn o bryd, mae tri swyddog wedi eu hawdurdodi i ymgymryd ag arolygon awdurdodedig o eiddo.

### 4.3 Cynllun Datblygu Staff

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid mewn perthynas â hyfforddiant staff a chymwysterau swyddogion a chontractwyr. Ar hyn o bryd, mae gofyn i'r rhan fwyaf o swyddogion gwblhau 20 awr o DPP y flwyddyn.

Mae rheolwyr tîm yn cynnal gwerthusiadau staff rheolaidd sy'n cynnig cyfle i:

- Adolygu llwyddiannau a nodi rhwystrau at gyrraedd targedau
- Cytuno ar dasgau ac amcanion allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad i sicrhau bod gan y cyngor weithlu abl a'i fod yn cefnogi datblygiad gyrfa

Mae rheolwyr tîm a/neu swyddogion arweiniol yn gyfrifol am asesiad galluoedd craidd a meysydd ar gyfer datblygiad, gan ddefnyddio pro-fformâ'r ASB yn seiliedig ar ei Fframwaith Gallu neu ffurf gyfatebol.

Yn ogystal â sesiynau briffio tîm yn rheolaidd, ble mae materion sy'n peri pryder a materion mewn perthynas â chysondeb yn cael eu trafod, mae swyddogion arweiniol yn archwilio gwaith swyddogion awdurdodedig ac yn rhoi adborth.

Mae gan swyddogion bwyd a bwyd anifeiliaid fynediad at y wybodaeth ddiweddaraf, trwy:

- Cronfa ddata Hwyluso Cyfathrebu'r ASB (RIAMS)
- Cyrsiau ar-lein a gyflenwir trwy'r ASB
- Trafodaeth rhwng cydweithwyr ar Knowledge Hub
- Ffeiliau tîm wedi eu rhannu a mynediad at y rhyngwyd

Mae cyfleoedd datblygiad yn codi trwy'r flwyddyn ac mae swyddogion yn cael eu hannog i fynychu hyfforddiant sy' n briodol at eu rôl. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Hyfforddiant a ariennir gan yr ASB
- Hyfforddiant a gynigir gan gyrrff proffesiynol e.e., CIEH, CTSI, CENTSA
- Hyfforddiant cysondeb cenedlaethol a ddarperir gan yr ASB

Mae'r rhaglen hyfforddiant a gytunwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn y tabl isod, er y gallai cyfleoedd pellach godi:

<b>Cynllun Hyfforddiant a Datblygiad Swyddogion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2024-2025</b>			
<b>Pwnc</b>	<b>Darparwr</b>	<b>Hyd</b>	<b>Gwybodaeth</b>
Hyfforddiant Swyddog Ardystio sy'n Gymwys gyda Bwyd (FCCO)	APHA	2 ddiwrnod	Rheolaethau bwyd wedi ei fewnforio
Hyfforddiant Eiddo Cymeradwy	ASB	1 diwrnod	Trosolwg o'r broses gymeradwyo a deddfwriaeth gysylltiedig
Cysondeb CSHB	ASB	0.5 diwrnod	Ymarfer Cenedlaethol Cysondeb CSHB
HACCP	ASB	1 diwrnod	Egwyddorion, gweithredu ac asesiad y HACCP

Samplu Bwyd	ASB	1 diwrnod	Rolau a chyfrifoldebau, samplu anffurfiol a ffurfiol ar gyfer dadansoddiad ac archwiliad, dadansoddi canlyniadau ac opsiynau gorfodaeth
Hyfforddiant Bwyd wedi ei Fewnforio	CENTSA	2 awr	Cyngor ymarferol cyffredinol ynglŷn ag ymchwilio i droseddau safonau bwyd.
Rheoleiddio a Chymeradwyo Sefydliadau Bwyd Anifeiliaid	ASB	6 awr	Trosolwg o'r broses gymeradwyo a deddfwriaeth gysylltiedig
Bwydydd Anifeiliaid Meddyginiaethol	ASB	6 awr	Trosolwg cyffredinol a chyfarwyddyd i Swyddogion ar feddyginiaethu bwyd anifeiliaid
Trosolwg o Ddeddfwriaeth Bwyd Anifeiliaid	ASB	6 awr	Cyngor ymarferol cyffredinol ynglŷn â deddfwriaeth sy'n berthnasol i Arolygiadau Safonau Bwyd



## 5. Asesiad Ansawdd

### 5.1 Asesiad Ansawdd a Monitro Mewnol

Gwneir monitro mewnol er mwyn amlygu anghenion hyfforddiant a datblygiad a hyrwyddo cysondeb. Mae gan Reolwr y Tîm Iechyd Amgylcheddol, Rheolwr y Tîm Trwyddedu a Safonau Masnach a swyddogion arweiniol hylendid bwyd a safonau bwyd oll rôl mewn monitro mewnol. Mae'r Rheolwr Bwyd ac Amddiffyn Iechyd a'r Rheolwr Trwydded a Safonau Masnach yn cynnal monitro ansoddol a meintiol, gan amlygu unrhyw bryderon.

Ymgwymerir ag asesiadau gallu, a nodir anghenion hyfforddiant fel rhan o'r broses honno, a hefyd mae anghenion hyfforddiant unigol yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd un wrth un swyddogion gyda rheolwyr.

Datblygwyd gweithdrefn ar gyfer monitro mewnol, sy'n cynnwys gwirio cofnodion arolygiadau a gwaith adweithiol, adolygiadau cymheiriaid, ymarferion cysondeb i asesu gallu swyddogion a chydymffurfiad â gofynion statudol, cyfarwyddyd, gweithdrefnau mewnol, arfer gorfodaeth dda a gofal cwsmer.

Cynhyrchir adroddiadau perfformiad chwarterol i gymharu perfformiad gyda thargedau'r cynllun gwasanaeth.

Mae'r Rheolwr Tîm Trwyddedu a Safonau Masnach yn gyfrifol am wirio nifer yr ymyraethau bwyd anifeiliaid ymgwymerir â nhw ac am gywirdeb ceisadau am arian i'r ASB. Cyfrifoldeb y Swyddog Bwyd Anifeiliaid Arweiniol Rhanbarthol yw monitro ansoddol gwasanaeth bwyd anifeiliaid Torfaen.

#### Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DAP)

Nodwyd y DAP canlynol ar gyfer gwasanaethau gorfodaeth cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, gyda pherfformiad yn erbyn y rhain yn destun adroddiad chwarterol i Weithgor y Cyngor.

- Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio ar y cyfan' â safonau hylendid bwyd.
- Canran yr ymyraethau hylendid bwyd a gwblhawyd mewn busnesau bwyd.

Nodwyd y dangosyddion perfformiad (DP) canlynol ar gyfer adroddiad chwarterol i'r Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd:

- Canran yr ymyraethau hylendid bwyd wedi eu cynllunio mewn sefydliadau bwyd a gwblhawyd (cronnol)
- Canran yr ymyraethau safonau bwyd wedi eu cynllunio mewn sefydliadau bwyd a gwblhawyd (cronnol)
- Canran yr ymyraethau hylendid bwyd anifeiliaid wedi eu cynllunio mewn sefydliadau bwyd a gwblhawyd (cronnol)
- Canran y sefydliadau bwyd a aseswyd fel rhai sy'n 'cydymffurfio ar y cyfan' â safonau hylendid bwyd
- Canran y sefydliadau bwyd a aseswyd fel rhai sy'n 'cydymffurfio' â safonau bwyd
- Canran y sefydliadau bwyd a aseswyd fel rhai nad ydynt yn cydymffurfio ar y cyfan (sgorio 2 neu'n is) sy'n destun camau gorfodaeth priodol
- Canran yr eiddo sy'n destun camau gorfodaeth ble mae un digwyddiad tor-cyfraith neu fwy wedi eu nodi
- Canran yr hysbysiadau o glefydau heintus a ystyriwyd yn rhai brys yr ymatebwyd iddynt o fewn 24 awr.

## 6. Adolygu

### 6.1 Adolygu yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth

#### Hylendid Bwyd

Yn ystod pandemig Covid-19, ffurfiwyd cynlluniau gwasanaeth blaenorol yr awdurdod gan y cyfarwyddyd yng nghynllun adfer yr ASB. Roedd hyn yn canolbwyntio ar gynnal \*ymyraethau mewn eiddo sy'n disgwyl ymyrraeth yng nghategoriâu band risg A, B a C ochr yn ochr â'r eiddo hynny ym mand risg D nad oedd yn cydymffurfio ar y cyfan gyda chyfraith diogelwch bwyd. Roedd eiddo newydd, heb sgôr, a oedd wedi eu hasesu fel blaenoriaeth uchel hefyd yn cael eu cynnwys.

Ar 1 Ebrill 2023, roedd gan yr awdurdod gyfanswm o 528 o eiddo busnesau, a oedd yn cynnwys eiddo ym mand risg D oedd yn cydymffurfio ar y cyfan a phob eiddo sgôr E, a oedd y tu allan i gynllun adfer yr ASB. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr ymyraethau a gynhaliwyd fesul band risg yn 2023/24: -

Band risg	Nifer yr ymyraethau
A	Dd/B gan nad oedd busnes ym mand risg A ar ddechrau'r flwyddyn
B	92
C	**373
D	29
E	31
Heb sgôr	34
Cyfanswm nifer yr ymyraethau	559

\*\*Ni chynhaliwyd 7 ymyrraeth a gynlluniwyd yn eiddo sgôr C, ac mae'r rhaid wedi eu dwyn ymlaen i gynllun 2023/24

\*mae ymyraethau'n cynnwys arolygiadau (llawn neu rannol), archwiliadau (llawn neu rannol), samplo, goruchwyliaeth, gwirio a dilysu. Mae arolygiadau ac archwiliadau'n cael eu hystyried yn ymyraethau cynradd sy'n arwain at roi sgôr risg i'r busnes i benderfynu'r dyddiad pan ddylai'r ymyrraeth nesaf fod – mae'r ymyraethau yma fel arfer yn arwain at roi sgôr hylendid bwyd newydd.

Mae ymweliadau samplo, goruchwyliaeth, gwirio a dilysu yn ymyraethau eilradd. Nid yw'r ymweliadau yma'n arwain at sgôr risg newydd na rhoi sgôr hylendid bwyd newydd. Gallan nhw, serch hynny, mewn rhai amgylchiadau, gael eu defnyddio i newid yr ymyrraeth gynradd nesaf yn unol â'r categori band risg y mae'r eiddo ynddo ar hyn o bryd. Er enghraifft, gallai eiddo â sgôr D sy'n cael ymweliad samplo gael eu hymyrraeth gynradd nesaf wedi ei symud ymlaen 2 flynedd o'r dyddiad y cymerwyd y samplau, byddai eiddo â sgôr E yn fwyafswm o 3 blynedd, gan ddibynnu ar lefel y risg a gyflwynwyd.

Mae'r defnydd o swyddog penodol ar gyfer archwilio busnesau di-sgôr wedi bod yn llwyddiant, gan leihau nifer y busnesau newydd sy'n aros am archwiliad o 73 i 9 rhwng 1 Hydref 2023 a 31 Mawrth 2024.

Yn gyffredin â blynyddoedd eraill, caeodd nifer o fusnesau bwyd cyn y gellid cynnal ymyrraeth.

Yn ogystal â'r ymyraethau a gynllunnir, cynhaliodd yr awdurdod ymyraethau adweithiol, fel arolygu busnesau newydd a agorodd yn ystod y flwyddyn, samplo ac ymweliadau gwirio.

Mae cyhoeddi parhaus o ddeilliannau erlyniadau hefyd wedi bod yn ataliad, gan atgoffa am bwysigrwydd fod busnesau'n sicrhau eu bod o ddifri am hylendid bwyd. Cafwyd 3 erlyniad llwyddiannus yn 2023-24, gan gynnwys, yn fwyaf nodedig, gwahardd gweithredwr busnes bwyd rhag rhedeg busnes bwyd yn y dyfodol.

Safonau Bwyd:

Yn 2023/24, cwblhawyd yr ymyraethau safonau bwyd canlynol:

- Arolygiadau ar y safle o 3 busnes bwyd â sgôr A
- 114 o ymyraethau mewn busnesau â sgôr B
- 147 o ymyraethau mewn busnesau â sgôr C
- 187 o arolygon ar y safle o fusnesau newydd

Yn 2023/24 ymgwymerodd y tîm Safonau Masnach â nifer o ymchwiliadau samplo bwyd, gan gynnwys:

- Lliwiau bwyd na chaniateir mewn bwyd ar glud, pan ganfuwyd fod gormod o liw bwyd neu liwiau na chaniateir mewn 25% o 20 bryd tecawê.

- Cig mewn cebabau wedi ei gam-ddisgrifio, pan adroddwyd gan Ddadansoddwr Cyhoeddus Torfaen fod 80% o 5 sampl yn “anfoddhaol” ar gyfer rhagofynion/disgrifiad cig.
- Alergen Ilaeth heb ei ddatgan mewn prydiau figanaidd parod, pan ganfuwyd nad oedd gan bob un o 5 sampl a gafwyd alergen Ilaeth heb ei ddatgan fel cynhwysyn yn y bwyd.

## 6.2 Nodi Unrhyw Amrywiaeth o Gymharu â'r Cynllun Gwasanaeth

Bodlonodd y Cyngor pob disgwyliad wrth gyfenwi gwasanaethau bwyd yn erbyn y targedau a osodwyd yng Nghynllun yr ASB ar gyfer Adferiad Awdurdodau Lleol ar ôl Covid-19, ac eithrio ag ymgymryd ag ymyraethau mewn 7 busnes sgôr C oedd yn cydymffurfio ar y cyfan a 18 busnes heb sgôr eto, gyda blaenoriaeth o risg uchel (chwech ohonynt wedi bod yn masnachu ers llai na 28 diwrnod ar 1 Ebrill 2023).

Yn 2023/24, ni lwyddodd y Cyngor i fodloni pob disgwyliad wrth gyflenwi gwasanaethau bwyd yn erbyn y targedau yn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Gwarchod Iechyd. Arolygwyd pob eiddo risg uchel (sgôr A-C), serch hynny ni arolygwyd busnesau risg is fel 7 sgôr D, 69 sgôr E a 17 heb sgôr (9 wedi bod yn masnachu ers llai na 28 diwrnod ar 1 Ebrill 2024), oherwydd swyddi gwag, absenoldebau tymor byr a galwadau gwaith ychwanegol yn codi o ostyngiad mewn cydymffurfriad busnesau bwyd. Mae'r cyfan wedi ei ddwyn ymlaen i'r Cynllun Ymyrraeth ar gyfer 2024-25.

Pennaeth Bwyd ac Amddiffyn Iechyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod camau priodol i leddfu risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddiffyg mewn perfformiad, yn cael eu nodi, eu gweithredu ac, os oes angen, yn cael eu hesgyn at y Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd. Mae'r Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd wedi cyflwyno nifer o gamau ers 2022/23 i barhau i gefnogi adferiad, sy'n cynnwys:

- Ail-strwythuro'r Tîm Bwyd ac Amddiffyn Iechyd, gyda phenodiad Rheolwr Tîm i oruchwylio cyflenwad Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch a Rheolaeth Clefydau Trosglwyddadwy.
- Cyflogwyd contractwr i ymgymryd â 50 o ymyraethau hylendid bwyd
- Defnyddio Gwasanaeth Gwarchod Iechyd Gwent i gynnal arolygon dros y ffôn, i gefnogi ein Strategaeth Gorfodaeth Amgen.

## 6.3 Meysydd ar gyfer Gwelliant

Yn 2015, cafodd gwasanaeth gorfodaeth cyfraith bwyd y Cyngor archwiliad gan yr ASB. Mae'r Cynllun Gweithredu a ddeilliodd o'r archwiliad yn dal i fod ar agor, er bod rhai o'r argymhellion wedi eu gweithredu ers hynny.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i welliant parhaus mewn gwasanaethau a bydd yn sicrhau y bydd camau priodol yn cael eu cymryd i weithredu unrhyw argymhellion eraill o'r archwiliad. Nodwyd y meysydd canlynol ar gyfer gwelliant trwy gydol 2023/24 a 2024/25:

- Cyfrannu mewn ffordd weithredol i Gynllun Gwarchod Iechyd Gwent, trwy ddefnyddio cefnogaeth y gwasanaeth i gynorthwyo â chyflenwi'r Cynllun Gwasanaeth Gorfodaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.
- Gweithredu cynllun hyfforddiant i alluogi ein Intern Bwyd ac Amddiffyn Iechyd i ymgymryd â'r amrywiaeth lawn o ymyraethau hylendid bwyd.
- Sicrhau bod canfyddiadau archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngorffennaf 2015 wedi eu gweithredu'n llawn.
- Cwblhau hyfforddiant Swyddogion Ardystio sy'n Gymwys gyda Bwyd i weithredu a pherfformio rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn unol â'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol (2017/625), ac unrhyw reolau perthnasol eraill.
- Defnyddio'r hyblygrwydd sydd yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd sy'n caniatáu awdurdodau bwyd i gynnal arolygiadau rhannol a samplu busnesau bwyd.
- Gweithredu Strategaeth Gorfodaeth Amgen (SGA) ar gyfer detholiad o fusnesau bwyd risg isel (sgôr Categori E).
- Ystyried sut all gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid gyfrannu at agendâu cynaliadwyedd a bwyd iachach, gyda'r bwriad o ddatblygu cynllun gydag argymhellion i'w gweithredu yn 2023/24
- Parhau i ddatblygu galluoedd swyddogion hylendid bwyd i alluogi swyddogion i ymgymryd ag amrywiaeth lawn o ymyraethau hylendid bwyd, gan gynnwys arolygon sefydliadau cymeradwy
- Parhau gyda gwaith o sicrhau cywirdeb y gronfa ddata ar gyfer eiddo bwyd anifeiliaid
- Cynnig rhaglen o hyfforddiant cyfreithiol i swyddogion er mwyn gwella'u hyder a'u galluoedd wrth ymgymryd â chamau gorfodaeth ffurfiol
- Adolygu a diweddarau gwefan y cyngor i sicrhau bod gan ddefnyddwyr a busnesau fynediad at

gyngor a gwybodaeth gywir ac o ansawdd da am wasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid

- Ymateb i ymgynghoriadau'r llywodraeth a'r ASB ar faterion bwyd a bwyd anifeiliaid fel sy'n briodol
- Gweithio Cyswllt Busnes Torfaen i ddatblygu a gweithredu arolygon bodlonrwydd busnes er mwyn cael adborth ar ymadweithiau gyda gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid.

## Atodiad 1

### Cynllun Samplo Safonau Bwyd 2024/25

Date	Survey
April 2024- March 2025	<b>HOME AUTHORITY</b> – Torfaen-based food manufactures/producers.
March/April 2024	<b>USE BY DATE SURVEY</b> GGFG Survey
April 2024	<b>MISDESCRIPTION OF DECAFFINATED COFFEE/TEA</b>
May 2024	<b>UNDECLARED SO<sub>2</sub> IN LOW-QUALITY TINNED MEATS</b>
June 2024	<b>QUID IN PREPACKED (HAM) SANDWICHES</b>
TBC	<b>ACCURACY OF HOSPITAL MEALS</b>